# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 5 Mehefin 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

# 213(v2)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**I ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol**

Sioned Williams (Gorllewin De Cymru): A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad am y digwyddiadau diweddar yng ngharchar Ei Fawrhydi y Parc?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith – Gwaith craffu blynyddol ar Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru: 2023

(30 munud)

**NDM8592** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 'Gwaith craffu blynyddol ar Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru: 2023', a osodwyd ar 16 Ebrill 2024.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2024. Ymatebodd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ar 15 Mai 2024.

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Y Prif Weinidog

(60 munud)

**NDM8593** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod pryder gwirioneddol y cyhoedd fod y Prif Weinidog wedi derbyn rhodd o £200,000 ar gyfer ei ymgyrch i arwain y Blaid Lafur gan gwmni sy'n eiddo i unigolyn sydd â dwy euogfarn droseddol amgylcheddol, ac yn gresynu at y diffyg crebwyll a ddangoswyd gan y Prif Weinidog wrth dderbyn y rhodd hon, a'i fethiant i'w ad-dalu.

2. Yn gresynu at gyhoeddiad negeseuon gweinidogion Llywodraeth Cymru lle mae'r Prif Weinidog yn datgan ei fwriad i ddileu negeseuon a allai fod wedi bod o gymorth yn ddiweddarach i'r ymchwiliad COVID yn ei drafodaethau ynghylch y penderfyniadau a wnaed adeg y pandemig COVID, er i'r Prif Weinidog ddweud wrth ymchwiliad COVID y DU nad oedd wedi dileu unrhyw negeseuon.

3. Yn nodi diswyddiad y Gweinidog Partneriaeth Gymdeithasol gan y Prif Weinidog o'i Lywodraeth, yn gresynu nad yw'r Prif Weinidog yn fodlon cyhoeddi ei

dystiolaeth ategol ar gyfer y diswyddiad, ac yn nodi bod y cyn-Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol yn gwadu'r cyhuddiadau yn ei herbyn yn gryf.

4. Am y rhesymau uchod, yn datgan nad oes ganddi hyder yn y Prif Weinidog.

## 7 Dadl Plaid Cymru - Cyllid HS2

(60 munud)

**NDM8594** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn galw ar lywodraeth nesaf y DU i ddyfarnu cyfran deg o arian HS2 i Gymru.

## 8 Cyfnod Pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8591** Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru)

Gofal anghymalog: mynd i'r afael ag iechyd y cymalau ac esgyrn yng Nghymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 11 Mehefin 2024